# Hysbysiad hwylus

## Cyfres Lles yng Nghymru: Diwygio lles

Medi 2011

## Cyflwyniad

Yn ogystal â chyflwyno'r **Credyd Cynhwysol** newydd a newid y **Budd-dal Tai** yn sylweddol (gweler hysbysiadau hwylus 3 a 4 yn y gyfres hon), mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu newid budd-daliadau eraill hefyd, gan gynnwys:

- Newidiadau yn y system **Credyd Treth**;
- Newidiadau yn y **Lwfans Byw i'r Anabl** (DLA) a chynnig y **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth** (ESA) am gyfnod cyfyngedig yn unig;
- Pennu **Budd-dal y Dreth Gyngor** yn lleol (CTB);
- Cysylltu budd-daliadau â'r **Mynegai Prisiau Defnyddwyr** yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu;
- Rhewi'r **Budd-dal Plant** am dair blynedd a pheidio â'i dalu i'r rhai sy'n talu treth ar y gyfradd uchaf;
- Pennu taliadau dewisol y **Gronfa Gymdeithasol** yn lleol;
- Cyflwyno **uchafswm blynyddol** i sicrhau nad oes yr un teulu'n cael mwy nag oddeutu £26,000 o fudd-daliadau bob blwyddyn.

Roedd pecyn o newidiadau lles a gyhoeddwyd yn yr *Adolygiad o Wariant* ym mis Hydref 2010, yn sicrhau arbedion o £7 biliwn, a fyddai'n cyfrannu at arbedion o **£18 biliwn y flwyddyn** at ei gilydd yn y system lles erbyn y **2014-15.**[1] Mae llawer o'r newidiadau y mae angen deddfwriaeth sylfaenol i'w rhoi ar waith wedi'u cynnwys yn y ***Mesur Diwygio Lles***, sydd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd.

## Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

Budd-dal i gyfrannu at y costau ychwanegol sy'n codi oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd yw'r **Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).** Nid yw'n seiliedig ar brawf modd a chaiff ei dalu **p'un a yw'r person yn gweithio ai peidio**. Mae'r ddwy elfen ar gyfer **gofal** a **symudedd** yn cael eu talu'n ôl gwahanol gyfraddau gan ddibynnu ar effaith yr anabledd.

[1] Gwefan Trysorlys Ei Mawrhydi: Spending review 2010- Welfare reform [fel ar 4 Awst 2011]

Ym mis Tachwedd 2010, roedd **244,540 o bobl yn hawlio'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)** yng Nghymru, ac roedd y mwyafrif yn ei dderbyn ar y cyd â budd-dal arall.[2]

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ynghylch cynnig budd-dal newydd (Taliad Annibyniaeth Bersonol) i ddisodli'r DLA i gynorthwyo pobl anabl. Y bwriad yw cyflwyno'r budd-dal newydd i'r rhai sy'n ei hawlio am y tro cyntaf o 2013-14 ymlaen. Dyma elfennau arfaethedig y budd-dal newydd:

- **Asesiad gwrthrychol** newydd i sicrhau canlyniadau mwy cyson a mwy o dryloywder i unigolion;
- **Dwy elfen,** yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a ystyrir yn ystod yr asesiad. Bydd yr elfen gyntaf yn seiliedig ar allu'r unigolyn i symud o le i le, a bydd yr ail yn seiliedig ar ei allu i ymgymryd â gweithgareddau allweddol sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd;
- **Dwy gyfradd** i bob elfen (pedair at ei gilydd);
- **Symud oddi wrth hawl awtomatig** yn seiliedig ar rai cyflyrau arbennig i asesiadau'n seiliedig ar effaith unrhyw nam;
- Y gallu i **adolygu'**r holl daliadau'n rheolaidd;
- Parhau â'r rheolau presennol i gyflymu'r broses hawliadau i bobl sydd â salwch angheuol.[3]

Cynigiwyd y dylid dileu'r **elfen symudedd** yn y DLA o fis Ebrill 2012 ymlaen yn achos y rhai sy'n cael gofal preswyl.[4] Mae hyn wedi'i ohirio, fodd bynnag, tan fis Mawrth 2012 pan fydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol yn dechrau, fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2011.[5]

Mae **adolygiad annibynnol** o'r cynnig hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd[6]

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cydnabod y bydd budd-daliadau rhai pobl yn gostwng drwy **ganolbwyntio ar gynorthwyo'r rhai mwyaf anghennus**.[7]

## Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar gyfraniadau

**Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth** (ESA) yn rhoi cymorth ariannol i bobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch neu anabledd. Cyflwynwyd ESA yn 2008 i ddisodli Budd-dal Analluogrwydd. Wedi iddynt gael eu hasesu, caiff y rhai sy'n ei hawlio'u rhannu'n ddau grŵp:

Mae disgwyl i'r rhai yn y **Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith** (WRAG) gymryd rhan mewn cyfweliadau'n ymwneud â gwaith i'w helpu i baratoi ar gyfer gwaith. Mae gan y rhai yn y **Grŵp Cymorth** salwch neu anabledd sy'n cael effaith difrifol ar eu gallu i weithio, ac nid oes disgwyl iddynt weitho.

---

[2] Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau: Work and Pensions Longitudinal Study/ NOMIS
[3] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Impact Assessment - Disability Living Allowance Reform, t6
[4] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) *Spending Review 2010*, t69
[5] Trysorlys Ei Mawrhydi (2011) Budget 2011, t55
[6] The Low Review
[7] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Impact Assessment - Disability Living Allowance Reform, t7

O fis Ebrill 2012 ymlaen, cyfyngir taliadau'r pobl yn y Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith i **flwyddyn yn unig**. Ar ôl blwyddyn, bydd incwm a chynilion y teulu'n cael eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i hawlio'r budd-dal cysylltiedig sy'n seiliedig ar brawf modd.[8]

## Credydau Treth a Budd-daliadau Plant

Budd-daliadau a delir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw **Credydau Treth**.

Mae **Credyd Treth Plant** ar gael i bobl sy'n gyfrifol am blentyn os yw eu incwm yn is na rhyw swm benodol.

Taliad i ychwanegu at enillion pobl ar incwm isel yw'r **Credyd Treth Gwaith** ac mae'n cynnwys pobl heb blant.

Bydd y pecyn toriadau i **Gredydau Treth** yn arwain at arbedion o £2.1bn, drwy:

- Rewi'r Credyd Treth Gwaith am 3 blynedd o fis Ebrill 2011 ymlaen;
- Torri'r cymhorthdal gofal plant yn y Credyd Treth Gwaith o 80% i 70% o fis Ebrill 2011 ymlaen;
- Bydd angen i gyplau weithio 24 awr yn hytrach nag 16 awr i fedru hawlio'r Credyd Treth Gwaith o fis Ebrill 2012 ymlaen;
- Lleihau twyll a gordaliadau drwy wella data enillion o fis Ebrill 2014 ymlaen.

Yn ogystal â hyn, bydd mwy yn cael ei wario ar elfen blant y **Credyd Treth Plant**, sef cynnydd o £30 yn 2011 a £50 yn 2012, ar ben y newidiadau'n gysylltiedig â'r mynegai prisiau'r newidiadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb mis Mehefin. Y bwriad yw gofalu nad yw canlyniadau'r Adolygiad o Wariant yn cael unrhyw ddylanwad mesuradwy ar dlodi plant dros y ddwy flynedd nesaf.[9]

Bydd cyfraddau'r **Budd-dal Plant** yn cael eu rhewi am dair blynedd o fis Ebrill 2011 ymlaen, ac o fis Ionawr 2013, ni fydd teuluoedd yn cael hawlio Budd-dal Plant os oes aelod o'r teulu'n talu treth ar y gyfradd uwch.[10]

## Budd-dal y Dreth Gyngor

O fis Ebrill 2013, bydd gostyngiad o 10 y cant mewn gwariant ar **Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor** a chaiff ei ddatganoli i awdurdodau lleol a gweinyddiaethau datganoledig.[11]

## Uwchraddio

Ym mis Ebrill 2011, dechreuwyd defnyddio'r **Mynegai Prisiau Defnyddwyr** yn lle **Mynegai Rossi**[12] a'r **Mynegai Prisiau Manwerthu** i benderfynu ar y cynnydd mewn budd-daliadau ym mis Ebrill bob blwyddyn (sef uwchraddio). Penderfynodd Llywodraeth y DU wneud hyn

[8] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Spending Review 2010***, t69
[9] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Spending Review 2010***
[10] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Spending Review 2010***, t68
[11] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Spending Review 2010***, t69
[12] System a ddefnyddir i gynyddu cyfraddau budd-daliadau bob blwyddyn yw **Mynegai Rossi** ac mae'n seiliedig ar y cynnydd ym mis Medi yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer pob eitem, ac eithrio rhenti, llog morgais, y Dreth Gyngor a dibrisiant tai.

am ei bod yn credu bod hon yn ffordd well o fesur chwyddiant ac yn fesur mwy priodol i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau gan nad yw'n ystyried costau tai. Disgwylir y bydd y newid hwn yn arwain at **arbedion o £6 biliwn bob blwyddyn** erbyn 2015.

## Newidiadau ychwanegol

- Diddymwyd y **Grant Iechyd yn ystod Beichiogrwydd,** sef taliad untro i helpu merched beichiog baratoi ar gyfer genedigaeth, ym mis Ionawr 2011. Bydd **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ar gael i'r plentyn cyntaf yn unig**, oni bai bod y ferch yn disgwyl mwy nag un plentyn neu oni bai mai hwn fydd yr unig blentyn dan 16 oed yn y teulu;[13]
- Daeth y cynnydd dros dro mewn **Taliadau Tywydd Oer**, i £25, yn barhaol ym mis Tachwedd 2010;[14]
- Diddymwyd y **Gronfa Ymddiriedolaeth Plant** ar 1 Ionawr 2011, ond o hydref 2011 ymlaen bydd y Trysorlys yn cynnig cyfrif cynilo di-dreth i blant. Ni fydd Llywodraeth y DU yn rhoi arian yn y cyfrif, y ffaith ei fod yn ddi-dreth yw'r fantais.[15] Roedd Llywodraeth Cymru yn arfer cynnig taliad ychwanegol drwy Gronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru ond daeth hwn i ben ym mis Ebrill 2011;
- O fis Ebrill 2011 ymlaen, cynyddodd y lwfans personol di-dreth ar gyfer treth incwm i £7,475 i bobl dan 65 oed;[16]
- O fis Ebrill 2012, bydd rhieni unigol sy'n hawlio **Cymhorthdal Incwm** yn cael eu trosglwyddo i fudd-daliadau eraill os yw eu plentyn ieuengaf dan bump oed;[17]
- Cafodd Uchafswm Credyd Cynilion y **Credyd Pensiwn** ei rewi am bedair blynedd ym mis Ebrill 2011;[18]
- Ym mis Hydref 2010, newidiodd y gyfradd llog a ddefnyddir i gyfrifo'r **Cymhorthdal Llog Morgais** o 6.08 y cant i gyfradd morgais Banc Lloegr ar gyfartaledd, sef 3.63 y cant ym mis Gorffennaf 2010. Bydd hyn yn newid dim ond os bydd gwahaniaeth o 0.5 y cant neu ragor yn y gyfradd morgais ar gyfartaledd. Caiff y mesurau dros dro i **leihau'r cyfnod aros** ac i **gynyddu'r cyfyngiad** ar gyfalaf morgais eu hymestyn hefyd.[19]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar Ddiwygio lles, cysylltwch â **Hannah Johnson** (**Hannah.Johnson@Wales.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o'n hysbysiadau hwylus **yma**.

[13] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Emergency Budget June 2010***, t34
[14] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Spending Review 2010***, t69
[15] Gwefan Cronfa Ymddiriedolaeth Plant: **Changes to the Child Trust Fund** [fel ar 13/01/10]
[16] Gwefan DirectGov: **Budget June 2010 – Tax changes** [fel ar 11/01/11]
[17] Gwefan yr Adran Gwaith a Phensiynau: **Changes to Income Support for lone parents** [fel ar 11/01/10]
[18] Llyfrgell Ty'r Cyffredin (2010) **Standard Note SNBT/1439 Pension Credit** [fel ar 11/01/10]
[19] Trysorlys Ei Mawrhydi (2010) ***Emergency Budget June 2010***, t35